TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

HND Peirianneg Electronig a Thrydanol

Yn gryno

Wrth i'r diwydiant electroneg barhau i dyfu ar draws y byd, mae galw uchel am wybodaeth a sgiliau o fewn peirianneg electroneg. Os ydych yn gweithio yn y maes ac eisiau cymryd y cam nesaf yn eich gyrfa, bydd y cwrs rhan-amser hwn yn eich helpu i ddatblygu eich gallu.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych eisiau gwella eich arbenigedd a'ch rhagolygon ym maes electroneg

... Ydych eisiau cymryd y cam nesaf yn eich gyrfa yn y diwydiant hwn

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r astudio yn gyfuniad o theori (darlithoedd a thiwtorialau) ac ymarfer (gweithdai ymarferol), drwy fodiwlau craidd electroneg, egwyddorion trydanol, rheoli ac offeryniaeth, PLCs a mathemateg.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Bydd prosiect yn ail ran y cwrs yn datblygu eich sgiliau gweithio mewn grwp, a byddwch yn cynhyrchu arteffact sy'n gweithio i'w arddangos yn nigwyddiad arddangos peirianneg.

Darperir y cwrs drwy gyfuniad o ddarlithoedd, tiwtorialau a gweithdai ymarferol.

Bydd myfyrwyr yn cael eu hasesu drwy aseiniadau, gwaith cwrs a phrofion yn y dosbarth, yn ogystal â pharatoi a rhoi cyflwyniadau i ddatblygu eich sgiliau cyfathrebu.

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Mae angen i chi fod wedi cyflawni HNC mewn

Peirianneg Drydanol i wneud cais am y cwrs hwn.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Gyrfaoedd posib:

Bydd y cwrs yn eich paratoi ar gyfer gyrfa o fewn electroneg, cyfrifiadureg, peirianneg drydanol, cyfathrebu, neu systemau rheoli a systemau gwreiddio. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth, y sgiliau ymarferol, y profiad a'r hyder i chi astudio am radd anrhydedd mewn Peirianneg Drydanol ac Electronig.

Gwybodaeth Ychwanegol

Gan fod hyn yn cael ei gyflwyno ar y cyd â Phrifysgol De Cymru (PDC), ar ôl ei gwblhau, gallwch ychwanegu at eich cymhwyster i radd BSc (Anrh) lawn gydag astudiaeth ran-amser ychwanegol.

Bydd y cwrs hwn yn eich paratoi at yrfa o fewn:

Electroneg
Peirianneg drydanol
Cyfathrebu
Systemau rheoli a systemau ymgorffori

Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth, y sgiliau ymarferol, y profiad a'r hyder i chi astudio gradd anrhydedd mewn Peirianneg Electronig a Thrydanol.